

Pwyllgor Adfywio

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2018

PRESENNOL:	Y Mri John Griffith, Richard Griffiths, R.Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, J Arwel Roberts.
WRTH LAW:	Trysorydd, Cyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth Elusennol (i roi cyngor ynghylch Eitem 3). Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM) Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Thrysorlys (GR), Rheolwr Grantiau (JW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Mri. Carwyn Jones, Alun Roberts, Ieuan Williams.
HEFYD YN BRESENNOL:	Mr T LI Hughes – Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

1 ETHOL CADEIRYDD

Ailetholwyd Mr Bob Parry OBE FRAGS yn Gadeirydd.

2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Mr J Arwel Roberts yn Is-Gadeirydd.

3 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn: -

Datganodd Mr Richard Griffiths ddiddordeb personol yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 12 Cymdeithas Dreftadaeth Ddiwydiannol Amlwch a Chais 15 Copperfest - a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais arnynt.

'Roedd Mr Carwyn Jones wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 21 Côr Ieuenctid Môn - ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn dilyn cael cyngor cyfreithiol.

Datganodd Mr R Meirion Jones ddiddordeb personol yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 8 Cwmni'r Fran Wen a Chais 34 Band Biwmares - a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais arnynt.

Datganodd Mr Bryan Owen ddiddordeb personol yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 4 Neuadd Bentref Aberffraw a Chais 11 Tudur Cyf - a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais arnynt.

4 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2017.
(*Mabwysiadwyd y cofnodion gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ar 18 Ebrill, 2017*).

5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: -

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

6 CEISIADAU GRANTIAU MAWR 2018/19

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â cheisiadau a dderbyniwyd am Grantiau Mwy.

Dyweddodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017, wedi penderfynu argymell cyllideb o £350k ar gyfer Grantiau Mawr yn 2018/19. Cymeradwywyd y gyllideb hon gan gyfarfod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar 24 Ionawr, 2018. Lansiwyd y broses ymgeisio ym mis Rhagfyr 2017 trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol. Gosodwyd hysbysebion hefyd yn y papurau newydd lleol a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 31 Ionawr, 2018. Gwahoddwyd ceisiadau am gyllid o fwy na £8,000 i gynorthwyo gyda phrosiectau cyfalaf mawr neu refeniw i ariannu gwasanaethau penodol a fyddai o fudd i bobl Ynys Môn. Rhaid i geisiadau fodloni un o'r meini prawf canlynol:

- Cymorth i grwpiau dan anfantais;
- Adfywio'r economi leol;
- Gwella sgiliau;
- Lleihau tlodi;
- Gwarchod treftadaeth;
- Diogelu'r amgylchedd;
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â chwaraeon, iechyd a budd i'r gymuned;
- Datblygu ysbryd cymunedol a llesiant.

Yn y cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017 penderfynwyd, er na waherddir ceisiadau gan sefydliadau a oedd wedi derbyn arian o'r gronfa Grantiau Mawr yn y pum mlynedd flaenorol, ni fyddai'r ceisiadau hynny'n cael sylw hyd nes y byddai'r holl geisiadau eraill wedi cael eu hystyried ac ar yr amod bod yr arian yn dal i fod ar gael.

Dyweddodd y Trysorydd fod 34 o geisiadau wedi eu derbyn erbyn y dyddiad cau. Roedd manylion y ceisiadau a dderbyniwyd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried y ceisiadau, roedd Swyddogion wedi sgorio'r ceisiadau ymlaen llaw yn erbyn cyfres o feini prawf a ddefnyddiwyd yn flaenorol i asesu'r ceisiadau.

Derbyniodd y Pwyllgor fanylion cefndirol y ceisiadau gan y Swyddogion ac yn dilyn trafodaethau

PENDERFYNWYD: -

- **Rhoi sylw i 15 cais mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn;**
- **Cynghori un ymgeisydd i gyflwyno eu cais i gronfa grantiau bach yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**Cynghorydd Robert G Parry OBE FRgS
Chair**